

HAWLIAU PLANT

Adnodd Cymraeg ar gyfer dysgwyr 8–11 oed

CRYNODEB I ATHRAWON

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Amcanion *Hawliau Plant*
- Cysylltiadau â'r cwricwlwm
- Strwythur *Hawliau Plant*
- Gwahaniaethu
- Amlinelliad manwl o'r sesiwn
- Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Cydnabyddiaethau
- Adnoddau defnyddiol

Cyflwyniad

Mae *Hawliau Plant* wedi bod yn un o adnoddau mwyaf poblogaidd Oxfam i ddysgwyr 8–11 oed ers blyneddau lawer. Yn y fersiwn hwn, sydd wedi'i ddiwygio a'i ddiweddarau, yr ydym wedi cysylltu pob sesiwn yn gryfach â'r cwricwlwm cenedlaethol. Felly, gallwch wella sgiliau iaith eich dysgwyr a gwneud hawliau'r plentyn yn berthnasol a diddorol yr un pryd. Mae *Hawliau Plant* yn cynnwys astudiaethau achos o fywyd go iawn a gweithgareddau cyffrous i ddatblygu iaith lafar, darllen ac ysgrifennu'r dysgwyr.

Mabwysiadwyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan lywodraethau ledled y byd yn 1989. Mae'r hawliau hyn yn disgrifio'r hyn sydd ei angen ar bob plentyn i oroesi, tyfu a byw i'w botensial llawn. Mae'r hawliau hyn yn eiddo i bob plentyn, ble bynnag y mae'n byw yn y byd a pha un a yw ei fywyd yn cael ei effeithio gan wrthdaro neu drychinebau ai peidio. Mae hawliau gwleidyddol, economaidd, sifil, cymdeithasol a diwylliannol 54 erthygl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys pob agwedd ar fywydau plant ac yn egluro sut y mae'n rhaid i oedolion a llywodraethau gydweithio i sicrhau bod hawliau plant ym mhobman yn cael eu diwallu. Mynegir pedair egwyddor gyffredinol sy'n sail i'r 54 erthygl – heb y rhain ni ellir diwallu'r hawliau eraill – yn erthyglau 2, 3, 6 a 12: yr hawl i beidio â gorfod wynebu gwahaniaethu; yr hawl i sicrhau bod buddiannau gorau'r plentyn yn cael eu diwallu, yr hawl i fywyd, goroesi a datblygu, a'r hawl i'r plentyn gael ei glywed. Am wybodaeth bellach, gweler: www.unicef.org.uk.

Yn adnodd Oxfam ar *Hawliau Plant* canolbwyntir ar dair astudiaeth achos yn ymwneud â phlant o Syria, Uganda a Sierra Leone. Drwy gyfrwng enghreifftiau byw, dangosir nad yw'r hawliau y mae plant yn eu mwynhau mewn gwahanol rannau o'r byd yn gyfartal. Mae anghyfartaledd eithafol – y gwahaniaeth mawr rhwng pobl o ran eu cyfoeth, eu hincwm a'u gallu i gael gwasanaethau hanfodol megis iechyd ac addysg – yn arafu gallu pobl i'w codi eu hunain allan o dlodi. Gall y gwahaniaethau hyn ddigwydd rhwng cymunedau yn yr un wlad,

neu rhwng gwledydd a'i gilydd. Gall anghyfartaledd hefyd gyfeirio at gyfleoedd (mewn bywyd) a chanlyniadau anghyfartal.

Ar hyn o bryd mae bwlch sy'n tyfu'n gyflym rhwng y tlawd a'r cyfoethog i'w weld mewn llawer gwlad ledled y byd. Mae saith o bob deg o bobl yn y byd yn byw mewn gwledydd lle mae anghyfartaledd economaidd wedi cynyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf hyn. Petai holl gyfoeth y blaned yn cael ei rannu'n ddau, byddai bron ei hanner yn perthyn i'r un y cant mwyaf cyfoethog a'r hanner arall i 99 y cant o'r boblogaeth. Mae anghyfartaledd yn broblem gynyddol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r pum teulu cyfoethocaf yn y Deyrnas Unedig bellach yn fwy cyfoethog na'r 20 y cant isaf o'r boblogaeth (12.6 miliwn o bobl).

Yn gyffredinol, mae anghyfartaledd yn tanseilio datblygiad potensial pobl, gyda phlant o deuluoedd dan anfantais, nad yw eu hawliau yn cael eu diwallu'n llawn, yn colli tir yn gyflym o ran dysgu cynnar a chanlyniadau eraill. Am wybodaeth bellach, gweler *What Inequality Means For Children: Evidence from Young Lives* gan Woodhead, Dornan a Murray, Young Lives, Ionawr 2013: www.younglives.org.uk.

Amcanion Hawliau Plant

- Defnyddio astudiaethau achos go iawn i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u galluogi i weld sut y mae hawliau plant yn bwysig ac yn berthnasol, yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd eraill.
- Datblygu sgiliau iaith y dysgwyr mewn amrywiol feysydd, yn cynnwys: defnyddio dadl sy'n perswadio ac iaith emosiynol, defnyddio cysyllteiriau i gysylltu syniadau, cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl ac ysgrifennu areithiau ar gyfer cynulleidfaoedd targed.
- Annog y dysgwyr i ddefnyddio clwb iechyd ysgol yn Sierra Leone yn ysbrydoliaeth i sefydlu eu clwb iechyd neu eu clwb hylendid ysgol eu hunain.
- Annog arddulliau addysgu a dysgu sy'n canolbwyntio ar gymryd rhan, ymchwilio a chydweithio, a datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol.
- Datblygu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Cynorthwyo athrawon i fodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol.

Strwythur Hawliau Plant

- Un sioe sleidiau
- Dau fideo
- Cynlluniau chwe sesiwn
 - Sesiwn 1: Angen ac eisiau
 - Sesiwn 2: Hawliau'r plentyn
 - Sesiwn 3: Archwilio hawliau
 - Sesiwn 4: Hawl i iechyd da – dŵr a glanweithdra
 - Sesiwn 5: Hawl i iechyd da – ysgrifennu araith sy'n perswadio
 - Sesiwn 6: Hawl i iechyd da – ein clwb iechyd ysgol

Am wybodaeth bellach, gweler yr *Amlinelliad manwl o'r sesiynau*, isod.

Gwahaniaethu

Mae'r rhan fwyaf o'r sesiynau yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer gwahaniaethu'r gwaith ar iaith; mewn sesiynau eraill gellir gwahaniaethu yn ôl y canlyniadau, ac felly ni chyfeiriwyd yn benodol at wahaniaethu yng nghynlluniau'r sesiynau hyn. Cynhwysir syniadau pellach hefyd yn y sesiynau eu hunain, a gellir defnyddio llawer o'r rhain i ymestyn y dysgwyr mwyaf galluog.

Teitl – amlinelliad manwl o'r sesiynau

Trosolwg o'r Sesiwn	Amcanion Dysgu	Canlyniadau Dysgu	Cwestiynau Allweddol	Gweithgareddau
Sesiwn 1: Angen ac eisiau <i>Bydd y dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bychain i flaenoriaethu eitemau yn ôl yr hyn sydd eu 'hangen' arnyn nhw a'r hyn maen nhw ei 'eisiau'. Yn y cyd-destun hwn, bydd y dysgwyr yn dechrau defnyddio iaith lafar i fynegi eu barn mewn ffordd strwythuredig i berswadio eraill.</i>	<ul style="list-style-type: none"> Strwythuro dadl sy'n ceisio perswadio drwy ddefnyddio cyfres o bwyntiau rhesymegol, gan ddechrau a gorffen â'r dadleuon cryfaf. Cysylltu eu dadl â chynulleidfa darged. Gwahaniaethu rhwng angen ac eisiau. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn gwahaniaethu rhwng pethau sydd eu hangen arnynt a phethau maent eu heisiau, ac yn eu blaenoriaethu yn ôl eu trefn. Bydd y dysgwyr yn ceisio perswadio eraill i gytuno â'u barn ynghylch eu blaenoriaethau. Bydd y dysgwyr yn gwrando'n ofalus ar farn eraill. Bydd y dysgwyr yn casglu ymadroddion sy'n perswadio i'w roi mewn 'banc geiriau' ar gyfer y dosbarth. 	<ul style="list-style-type: none"> Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhywbeth rydych chi ei 'angen' a rhywbeth rydych chi ei 'eisiau'? Beth sydd wir ei angen arnoch i fyw? Beth sy'n bwysig iawn i chi, er y gallech oroesi hebdo? Beth rydych chi'n meddwl y mae gan bawb hawl iddo? A ddylai'r hawliau hyn fod ar gyfer pob plentyn neu ar gyfer y plant yn y dosbarth yn unig? 	<p>Cyflwyniad: Cyflwyno'r syniad o berswadio eraill</p> <p>Gweithgaredd 1.1: Blaenoriaethu anghenion</p> <p>Gweithgaredd 1.2: Llunio dadl Sesiwn llawn</p>
Sesiwn 2: Hawliau'r plentyn <i>Bydd y dysgwyr yn darllen detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn trafod pa dair erthygl yw'r pwysicaf, yn eu barn nhw. Byddant yn ysgrifennu brawddeg i gyfiawnhau eu dewis o erthyglau ac yn defnyddio iaith perswadio i annog eraill i dderbyn eu safbwynt nhw.</i>	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu sgiliau defnyddio iaith perswadio, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Datblygu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chofio o leiaf dair erthygl o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn rhoi erthyglau a ddetholwyd o blith Hawliau'r Plentyn gan y Cenhedloedd Unedig mewn categorïau megis iechyd, hapusrwydd neu ddiogelwch ac yna'n eu gosod yn ôl trefn eu pwysigrwydd. Bydd y dysgwyr yn defnyddio iaith briodol i berswadio eraill i gytuno â'u dewis o'r tair erthygl bwysicaf. Bydd y dysgwyr yn llunio posteri gan ddefnyddio iaith berswadiol i gefnogi eu dewis o'r tair erthygl bwysicaf. 	<ul style="list-style-type: none"> Beth yw nod yr erthygl hon? Pa dair erthygl yw'r pwysicaf, yn fy marn i? Pam? Sut alla i wneud i'r frawddeg hon swnio'n fwy perswadiol? Pa erthyglau oedd y rhai mwyaf poblogaidd gan y dosbarth? Pam? Ydi pob plentyn yn cael yr hawliau hyn? 	<p>Cyflwyniad: Cyflwyno Hawliau'r Plentyn</p> <p>Gweithgaredd 2.1: Blaenoriaethu hawliau</p> <p>Gweithgaredd 2.2: Defnyddio iaith sy'n perswadio Sesiwn llawn</p>

<p>Sesiwn 3: Archwilio hawliau</p> <p><i>Bydd y dysgwyr yn edrych ar ddwy astudiaeth achos, un am Reema, merch fach o Syria sy'n byw fel ffoadur yn Lebanon, ac un arall am Charles, bachgen sy'n byw yn Kampala, prifddinas Uganda. Bydd y dysgwyr yn trafod pa hawliau sydd gan y ddau blentyn hyn neu sydd ddim ganddyn nhw, ac yna'n cymryd rhan mewn chwarae rôl i archwilio'r hawliau hyn. Bydd y dysgwyr yn gorffen drwy ddefnyddio'r cyd-destun hwn i ddatblygu eu sgiliau defnyddio cysyllteiriau i gysylltu eu syniadau.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu sgiliau defnyddio cysyllteiriau i gysylltu syniadau. • Datblygu dealltwriaeth o'r hawliau sydd gan rai plant mewn rhannau eraill o'r byd, a'r hawliau nad oes ganddynt, a rhai o'r rhesymau dros hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y dysgwyr yn darllen un ai stori Reema neu stori Charles ac yn trafod pa rai o'r 12 hawl a ddetholwyd yn Sesiwn 2 sydd ganddynt neu sydd ddim ganddynt. • Bydd y dysgwyr yn cael gwell dealltwriaeth o hawliau Reema a Charles drwy gymryd rhan mewn chwarae rôl. • Bydd y dysgwyr yn dewis cysyllteiriau addas i gysylltu eu syniadau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sut mae Reema a Charles yn diwallu eu hangen am ddŵr glân, cysgod ac addysg? Sut mae'r rhain yn cymharu â'r ffordd rydyn ni'n diwallu ein hangen a'n heisiau? • Pa rai o hawliau Reema a Charles sy'n cael eu diwallu a pha rai sydd heb fod yn cael eu diwallu? Sut rydyn ni'n meddwl maen nhw'n teimlo am y rhain? • Allwn ni ddefnyddio cysylltair i gysylltu ein syniadau? 	<p>Cyflwyniad: Stori Reema, stori Charles</p> <p>Gweithgaredd 3.1: Archwilio Hawliau</p> <p>Gweithgaredd 3.2: Defnyddio cysyllteiriau i gysylltu syniadau</p> <p>Sesiwn llawn</p>
<p>Sesiwn 4: Hawl i iechyd da – dŵr a glanweithdra</p> <p><i>Mae'r sesiwn hwn yn canolbwyntio ar yr Hawl i iechyd da (Erthygl 24). Bydd y dysgwyr yn dysgu am ddŵr a glanweithdra yn Sierra Leone, gwlad sy'n ei chael hi'n anodd sicrhau bod iechyd da yn rhywbeth y gall pawb ei gael, yn enwedig yn dilyn argyfwng Ebola 2014–15. Yn eu rôl fel aelodau o glwb iechyd ysgol yn Sierra Leone, bydd y dysgwyr yn meddwl am ffyrdd o ddefnyddio iaith emosiynol i ddisgrifio i eraill fanteision y toiledau twll yn y ddaear a'r pypmpiau dŵr. Bydd y nodiadau a lunnir ganddynt yn eu paratoi ar gyfer Sesiwn 5.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio iaith emosiynol i ddisgrifio nodweddion. • Datblygu dealltwriaeth o wlad lle mai ychydig yn unig sy'n cael y cyfle i fwynhau iechyd da. • Egluro'r ffyrdd y mae cymunedau'n eu defnyddio i geisio goresgyn heriau iechyd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y dysgwyr yn defnyddio iaith emosiynol i ysgrifennu am fanteision toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio lluniau i ddarganfod tystiolaeth i gefnogi datganiadau penodol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ym mha gyfandir y mae Sierra Leone? Ble glywsoch chi sôn am y wlad? • Pa lun sy'n dangos tystiolaeth o'r her hon? • Beth yw manteision y toiled twll yn y ddaear a'r pwmp dŵr newydd? • Yn eich barn chi, pam nad yw rhai cymunedau wedi buddsoddi yn y toiledau twll yn y ddaear a'r pypmpiau dŵr newydd? • Pam y gallai buddsoddi mewn toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr arbed arian i'r cymunedau yn y tymor hir? 	<p>Cyflwyniad: Croeso i Sierra Leone</p> <p>Gweithgaredd 4.1: Beth yw'r problemau?</p> <p>Gweithgaredd 4.2: Beth yw'r atebion?</p> <p>Sesiwn llawn</p>

<p>Sesiwn 5: Hawl i iechyd da – ysgrifennu araith sy'n perswadio</p> <p><i>Yn eu rôl fel aelodau o glwb iechyd ysgol yn Sierra Leone, bydd y dysgwyr yn atgyfnerthu eu dysgu drwy wneud araith i berswadio aelodau o'r gymuned i fuddsoddi mewn adeiladu toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr. Noder y bydd angen i'r dysgwyr gyfeirio at y nodiadau a wnaed ganddynt yn Sesiwn 4 am syniadau allweddol.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgrifennu araith sy'n perswadio, wedi'i strwythuro ac yn seiliedig ar ddysgu blaenorol, gan gynnwys iaith emosiynol a chysyllteiriau. • Rhestru'r ffyrdd y mae cymuned â mynediad cyfyngedig at ddŵr glân a glanweithdra yn ceisio goresgyn yr heriau hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn eu rôl, bydd y dysgwyr yn ysgrifennu araith sy'n perswadio, wedi'i strwythuro, yn cynnwys iaith emosiynol a chysyllteiriau i berswadio aelodau o'u cymuned ddychmygol yn Sierra Leone i fuddsoddi mewn adeiladu toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr. 	<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw pwrpas clybiau iechyd ysgol yn Sierra Leone? • Pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer eich araith? • Sut fyddwch chi'n strwythuro eich araith? • Ydych chi wedi cynnwys nodweddion sy'n perswadio yn eich araith? 	<p>Cyflwyniad: Digwyddiad i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned</p> <p>Gweithgaredd 5.1: Syniadau allweddol</p> <p>Gweithgaredd 5.2: Ysgrifennu araith sy'n perswadio</p> <p>Sesiwn llawn</p>
<p>Sesiwn 6: Hawl i iechyd da – ein clwb iechyd ysgol</p> <p><i>Bydd y dysgwyr yn ystyried pa arferion hylendid da yn Sierra Leone y gellid hefyd eu defnyddio yn eu hysgol nhw (golchi eu dwylo'n ofalus, er enghraifft). Yna, byddant yn sefydlu clwb iechyd ysgol – go iawn neu ddychmygol – i hybu'r negeseuon hyn mewn ffordd a fydd yn perswadio eraill yng nghymuned yr ysgol i'w mabwysiadu.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyso'u gwybodaeth am lanweithdra, dŵr ac arferion hylendid da i'w hamgylchedd ysgol eu hunain. • Cyflwyno neges sy'n perswadio, un ai ar ffurf lafar neu ysgrifenedig, i gynulleidfa ehangach. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y dysgwyr yn llunio negeseuon am hylendid da i'w hysgol eu hunain. • Bydd y dysgwyr yn cyflwyno'r negeseuon hyn mewn ffordd sy'n perswadio i weddill cymuned yr ysgol, un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig. 	<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw pwrpas ein clwb iechyd? • Pam rydyn ni'n meddwl bod hylendid da yn bwysig? • Oes yna unrhyw arferion hylendid da sy'n arbennig o bwysig? Pam? • Oes yna unrhyw arferion hylendid da nad ydy'r ysgol yn eu dilyn yn dda iawn? Beth allwn ni ei wneud am hyn? • Sut fyddwn ni'n cyflwyno ein neges mewn ffordd sy'n perswadio? 	<p>Cyflwyniad: Y Clwb Iechyd</p> <p>Gweithgaredd 6.1: Negeseuon am hylendid da</p> <p>Gweithgaredd 6.2: Gweithredu</p> <p>Sesiwn llawn</p>



Dinasyddiaeth Fyd-eang

Adnodd i athrawon am ddinasyddiaeth fyd-eang yw *Hawliau Plant*. Mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn ddull o gynorthwyo pobl ifainc i ddatblygu'n ddinasyddion byd-eang gweithredol. Awgryma Oxfam ddefnyddio'r dull Dysgu-Meddwl-Gweithredu i strwythuro gweithgareddau'n ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang a rhoi cyfle i bobl ifainc ddysgu am broblemau, meddwl yn feirniadol sut i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang mewn ffordd gyfrifol. Gallai gweithredu olygu darganfod mwy neu feddwl yn ddyfnach am broblem. Gallai hefyd olygu codi ymwybyddiaeth am y mater ymhlith eraill neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchoedd penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler: <http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship>

Prif elfennau dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol yw:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfiawnder a thegwch cymdeithasol • Amrywiaeth • Globaleiddio a chyd-ddibyniaeth • Datblygiad cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro 	<ul style="list-style-type: none"> • Meddwl yn feirniadol • Gallu i ddadlau'n effeithiol • Gallu i herio anghyfiawnder ac anghyfartaledd • Parchu pobl a phethau • Cydweithredu a gwrthdaro • Datrys problemau 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Empathi • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Gwerthfawrogi a pharchu amrywiaeth • Gofal am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy • Cred y gall pobl wneud gwahaniaeth

Cydnabyddiaethau

Gyda diolch arbennig i Katrine Pringle am ei chymorth wrth ysgrifennu'r adnodd hwn.

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi'i gynhyrchu heb gefnogaeth a chyfraniad llawer o staff Oxfam.

Am wybodaeth bellach ynghylch Addysg Oxfam, yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: <http://www.oxfam.org.uk/education>.



Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac i Oxfam. Nid oes caniatâd i ddefnyddio'r delweddau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith project.



Mae Oxfam yn ddiolchgar am gefnogaeth Ymddiriedolaeth Arwyr Codau Post, a ariannwyd gan rai sy'n chwarae Loteri Cod Post y Bobl, i ddatblygu'r deunyddiau hyn.